# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Mai 2024

Amser: 09.15 - 11.25

# Hybrid, Private

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o’r Senedd: | David Rees AS (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Darren Millar AS<br>Vikki Howells AS<br>Jane Dodds AS |
| Staff y Pwyllgor: | Helen Finlayson (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Catherine Roberts (Dirprwy Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Josh Hayman (Ymchwilydd)<br>Claire Thomas (Ymchwilydd)<br>Valerie Livingston (Swyddog) |

### 1.1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Anfonodd Sarah Murphy AS ei hymddiheuriadau. Roedd Vikki Howells AS yn dirprwyo ar ei rhan.

Nododd y Pwyllgor, yn dilyn ei phenodiad yn Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar 17 Mai 2024, fod Sarah Murphy AS wedi ymwrthod yn ffurfiol â holl weithgarwch y Pwyllgor.

Croesawodd y Cadeirydd Jane Dodds AS, a oedd yn bresennol yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Gwaith ymchwil allanol a gomisiynwyd gan Ymchwil y Senedd

Nododd y Pwyllgor y gwaith ymchwil allanol.

### 2.2 Llythyr gan y Trefnydd a'r Prif Chwip ynghylch Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) - 10 Mai 2024

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 2.3 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Trefnydd a'r Prif Chwip ynghylch Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) - 16 Mai 2024

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 2.4 Llythyr gan y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru - 16 Mai 2024

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 3 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft, yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w cytuno drwy e-bost.

Cytunodd y Pwyllgor ar drefniadau ar gyfer cyhoeddi ei adroddiad.